dros adferiad o afiechyd meddwl i ddirfol

hafal

for recovery from serious mental illness

Ceredigion

Adroddiad Blynyddol 2010-2011

Mae Hafal Ceredigion yn darparu nifer o wasanaethau allweddol ar gyfer pobl gydag afiechyd meddwl difrifol a'u gofalwyr:-

- Mae ein Gwasanaeth Gofal Cartref yn cynnig cymorth lefel uchel 24 awr y dydd ar gyfer 7 o oedolion sydd yn gwella o afiechyd meddwl difrifol.
- Mae'r Gwasanaeth Cyfeillio Cyfarfod yn darparu gwasanaeth gwirfoddol, gan gynorthwyo cleientiaid i ddatblygu rhwydwaith gymdeithasol yn eu hardaloedd eu hunain.
- Mae Seibiant Respite for Carers yn darparu gwasanaeth sydd yn cysylltu gyda'r rhai hynny sydd yn derbyn gofal ar lefel unigol neu grŵp.
- Mae Clybiau Cymdeithasol Aberystwyth yn darparu amrywiaeth o weithgareddau a chefnogaeth gymdeithasol (gan gynnwys penwythnosau a Gŵyl y Banc) ar gyfer unigolion sy'n gwella o afiechyd meddwl ddifrifol.

Mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu cynnal drwy'r flwyddyn fel rhan o brosiectau Hafal Ceredigion. Maent yn cynnwys:

- Ymgyrch "Ffordd Tuag at Adferiad" a gynhaliwyd ger y môr. Mynychodd nifer y digwyddiad a hyrwyddwyd gwasanaethau Hafal yn llwyddiannus ynghyd ag addysgu unigolion am ymrymuso a gwella o afiechyd meddwl ddifrifol.
- Cynhaliwyd dyddiau gwybodaeth a gweithgaredd Cyfarfod/Seibiant poblogaidd drwy'r flwyddyn.
- Trefnwyd trip ym mis Mehefin i'r sioe amaethyddol leol gan aelodau'r clwb cymdeithasol a phrofodd hwn yn hynod o bleserus.

Mae diwrnodau gwybodaeth / gweithgaredd yn parhau i fod yn fodd positif o hyrwyddo ymgysylltiad cymdeithasol ac addysgiadol i'r gofalwyr. Roedd gofalwyr yn medru cael mynediad at wybodaeth gan fudiadau statudol eraill a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau; a hefyd, cymryd rhan yn y gweithgareddau hamdden a therapiwtig.

Ym mis Awst derbyniasom gyllid gan fenter "Gwobrau i Bawb" y Gronfa Loteri i ddatblygu sesiynau tecstilau yn y clybiau. Mae'r gludwaith o'r fan wersylla VW a wnaed bellach yn cael ei arddangos mewn man blaenllaw ym mhrif ystafell y clwb.

Parhaodd fflat Soar Glyd i ddarparu adnoddau unigryw i unigolion a oedd angen tenantiaeth tymor byr i ganolig wrth gynllunio eu gwelliant hir dymor ac adnabod rhywle mwy parhaol i fyw. Mae'r fflat wedi ei ddefnyddio eleni mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Yn ystod y flwyddyn, diogelwyd arian i brynu teledu plasma 42 modfedd a chwaraewr 'blue-ray' i fwyhau'r gweithgaredd cymdeithasol. Cynhaliwyd parti i ddathlu Hafal yn symud i'w fangre newydd ar Ffordd Portland, a chafwyd amser hwylus gan bawb!

Digwyddiad Ffordd Tuag at Adferiad Aberystwyth

http://www.hafal.org/hafal/cymraeg/ceredigion.php

5, Heol Portland, ABERYSTWYTH SY23 1NL
Ffôn: 01970 624 756
e-bost: ceredigion@hafal.org